COFNODION CYFARFOD ARBENNIG Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU A GYNHALIWYD TRWY DDULL HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD LLUN, 29 EBRILL 2024 AM 14:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd RM Granville – Cadeirydd

| | | |
|---|---|---|
| N Clarke | J E Pratt | A R Berrow |
| S Easterbrook | D M Hughes | H Griffiths |

Mynychwyr o bell:

S Griffiths, W Kendall, R Williams,
CLC Davies, M John, A Wathan,
J Llewellyn Hopkins, M Kearn

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu |
| Gillian Dawson | Cyfreithiwr Cynllunio |
| Lee Evans | Uwch Swyddog Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd y Tîm Cymorth Datblygu |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Steven Jenkins | Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr y Grŵp Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Philip Thomas | Prif Swyddog Cynllunio |

| | |
|---|---|
| Leigh Tuck | Uwch Swyddog Rheoli Datblygu |
| Moira Lucas | Prif Swyddog Cadwraeth a Dylunio |
| Mark Phillips | Cymoedd i'r Arfordir (V2C) |

## 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Ni wnaed penderfyniad – Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr R Collins, ML Hughes a D Harrison. |
| Y dyddiad y gwnaed y penderfyniad | Amherthnasol |

## 2. Datgan Buddiannau

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Ni wnaed penderfyniad.<br><br>Cyflwynwyd y datganiadau canlynol mewn perthynas â buddiant personol yn eitemau 7 ac 8 ar yr Agenda:-<br><br>Y Cynghorydd J Llewellyn Hopkins – Gan fod ei modryb yn berchen ar fflat sy'n edrych dros Bafiliwn y Grand.<br><br>Y Cynghorydd J Pratt – Gan fod Cyngor Tref Porthcawl (y mae'n aelod ohono) yn arfer bod â threfniant masnachol gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen mewn perthynas â chyfleusterau toiled a chan yr arferai gael ei gyflogi gan yr Aelod Seneddol lleol ar yr adeg y sicrhawyd y cais Ffyniant Bro ar gyfer Pafiliwn y Grand. |
| Y dyddiad y gwnaed y penderfyniad | Amherthnasol |

## 3. Ymweld â Safleoedd

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Cytunodd y Pwyllgor mai dydd Gwener 10 Mai 2024 fydd y dyddiad ar gyfer cynnal archwiliadau safleoedd arfaethedig a gyfyd o'r cyfarfod neu a bennir gan y Cadeirydd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor. |
| Y dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 29 Ebrill 2024 |

## 4. Siaradwyr Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd siaradwyd cyhoeddus wedi'u cofrestru i siarad yn y cyfarfod heddiw. |
| Y dyddiad y gwnaed y penderfyniad | Amherthnasol |

## 5. Taflen Ddiwygio

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed: | PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, fel y gellir ystyried sylwadau a diwygiadau hwyr y mae angen eu cynnwys (yn yr adroddiadau). |
| Y dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 29 Ebrill 2024 |

**6. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Adeiladu**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Y dylai'r Aelodau nodi Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. |
| Y dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 29 Ebrill 2024 |

**7. P/23/511/BCB – Pafiliwn Mawr Porthcawl CF36 3YW**

<table>
<tr><td>Y penderfyniad a wnaed</td><td>
PENDERFYNWYD: Y dylid rhoi caniatâd i'r cais uchod, yn amodol ar yr Amodau a gynhwysir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau:-
Y Cynnig:
Gwarchod ac atgyweirio'r adeilad, yn cynnwys adnewyddu tŵr y cloc, y ffenestri gwydr lliw a'r to metel newydd sy'n gorchuddio'r crymdo; ymestyn yr adeilad fel y gellir cael lifft, awditoriwm, galeri, toiledau a chefnogi ardaloedd cefn tŷ; pafiliwn ben to gwydr newydd a gwelliannau ac adnewyddiadau cysylltiedig i'r adeilad presennol.
Yn dilyn trafodaethau diweddar rhwng Ymgynghorydd Sŵn y cynllun a Swyddogion Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (Sŵn), cytunwyd y dylid newid y modd y caiff amod 7 ei eirio yn yr adroddiad, fel a ganlyn:
7. Ni ddylai'r lefel graddfa sŵn sy'n deillio o holl beiriannau a/neu gyfarpar sefydlog ar safle'r datblygiad, pan fesurir y lefel honno neu, pan nad yw hynny'n bosibl, drwy gyfrifiad neu gyfuniad o'r ddau ddull ar unrhyw safle preswyl fynd uwchlaw'r lefelau a nodwyd yn nhabl 1 isod. Caiff y mesuriadau a'r asesiadau eu cynnal yn unol â BS 4142:2014+A1:2019 dan amodau maes rhydd.
Tabl 1
<table><tr><td>Amser</td><td>Lefel graddfa sŵn</td></tr></table>
</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | <table><tr><td>Dydd (07.00-18.00)</td><td>47 dB, LAeq, 1 awr</td></tr><tr><td>Fin Nos (18.00-23.00)</td><td>45 dB, LAeq, 1 awr</td></tr><tr><td>Nos (23.00-07.00)</td><td>40 dB, LAeq, 15 munud</td></tr></table><br>Rheswm: Er mwyn diogelu amwynderau preswyl. |
| Y dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 29 Ebrill 2024 |

## 8. P/23/512/LIS – Pafiliwn Mawr Porthcawl CF36 3YW

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Yn amodol ar arsylwadau terfynol Tîm Cadwraeth a Dylunio’r Cyngor, penderfynwyd rhoi Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer yr uchod, yn amodol ar yr Amodau a gynhwysir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau:-<br><br>Y Cynnig:<br><br>Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer gwarchod ac atgyweirio’r adeilad, yn cynnwys adnewyddu tŵr y cloc, y ffenestri gwydr lliw a’r to metel newydd sy’n gorchuddio’r crymdo; ymestyn yr adeilad fel y gellir cael lifft, awditoriwm, galeri, toiledau a chefnogi ardaloedd cefn tŷ; pafiliwn ben to gwydr newydd a gwelliannau ac adnewyddiadau cysylltiedig i’r adeilad presennol. |
| Y dyddiad y gwnaed y penderfyniad | 29 Ebrill 2024 |

## 9. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Ni chafwyd unrhyw eitemau brys |
| Y dyddiad y gwnaed y | Amherthnasol |

| | |
|---|---|
| penderfyniad | |

I weld ychwaneg o drafodaethau a gynhaliwyd mewn perthynas â’r eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 14:39.